# ATODLEN 1

Rheoliad 2

## Deunyddiau CAC

### Amodau ar gyfer deunyddiau CAC (ac eithrio gwreiddgyffion nad ydynt yn perthyn i amrywogaeth)

**1.**—(1) Ni chaniateir marchnata deunyddiau CAC (ac eithrio gwreiddgyffion nad ydynt yn perthyn i amrywogaeth) oni bai eu bod yn bodloni'r gofynion yn is-baragraff (2).

(2) Y gofynion yw bod y deunyddiau CAC—

(a) yn cael eu lluosogi o ffynhonnell ddeunyddiau adnabyddedig a gofnodir gan y cyflenwr;

(b) yn wirdeip mewn perthynas â'r disgrifiad o'u hamrywogaeth yn unol â pharagraff 3;

(c) yn cydymffurfio â'r gofynion iechyd ym mharagraff 4; a

(d) yn cydymffurfio â'r gofynion ynghylch diffygion ym mharagraff 5.

(3) Pan na fo deunyddiau CAC yn cydymffurfio ag is-baragraff (2) mwyach—

(a) rhaid i'r cyflenwr eu symud ymaith o gyffiniau deunyddiau CAC eraill;

(b) caiff y cyflenwr gymryd camau priodol i sicrhau bod y deunyddiau hynny yn cydymffurfio ag is-baragraff (2) eto.

### Gwreiddgyffion nad ydynt yn perthyn i amrywogaeth

**2.**—(1) Ni chaniateir marchnata deunyddiau CAC sy'n cynnwys gwreiddgyffion nad ydynt yn perthyn i amrywogaeth oni bai eu bod yn bodloni'r gofynion yn is-baragraff (2).

(2) Y gofynion yw bod y deunyddiau CAC—

(a) yn wirdeip mewn perthynas â'r disgrifiad o'u rhywogaeth;

(b) yn cydymffurfio â'r gofynion iechyd ym mharagraff 4; ac

(c) yn cydymffurfio â'r gofynion ynghylch diffygion ym mharagraff 5.

(3) Pan na fo deunyddiau CAC yn cydymffurfio ag is-baragraff (2) mwyach—

(a) rhaid i'r cyflenwr eu symud ymaith o gyffiniau deunyddiau CAC eraill;

(b) caiff y cyflenwr gymryd camau priodol i sicrhau bod y deunyddiau hynny yn cydymffurfio ag is-baragraff (2) eto.

### Gwirdeiprwydd mewn perthynas â'r disgrifiad o'r amrywogaeth

**3.**—(1) Rhaid i gyflenwr gadarnhau gwirdeiprwydd deunyddiau CAC mewn perthynas â'r disgrifiad o'u hamrywogaeth yn unol â'r paragraff hwn, a gwirhau'r gwirdeiprwydd hwnnw yn rheolaidd.

(2) Gwneir hynny drwy arsylwi ar y mynegiad o nodweddion amrywogaeth, a bod yr arsylwi ar sail un o'r elfennau a ganlyn—

(a) ei disgrifiad swyddogol;

(b) y disgrifiad sy'n mynd gyda chais i gofrestru;

(c) y disgrifiad sy'n mynd gyda chais am hawliau amrywogaeth planhigion;

(d) pan fo'r amrywogaeth wedi ei chofrestru â disgrifiad a gydnabyddir yn swyddogol, neu'n destun cais i gofrestru â disgrifiad a gydnabyddir yn swyddogol, y disgrifiad hwnnw.

**Gofynion iechyd**

**4.**—(1) Rhaid i'r deunyddiau CAC fod yn rhydd i bob pwrpas rhag y plâu a restrir yn Atodiadau I a II i Gyfarwyddeb 2014/98/EU, o ran y genws neu'r rhywogaeth o dan sylw.

(2) Caiff hyn ei gadarnhau drwy arolygiad gweledol gan y cyflenwr neu, pan fo amheuaeth, drwy waith samplu a phrofi.

(3) Rhaid cyflawni arolygiadau gweledol a gwaith samplu a phrofi yn unol ag Atodiad IV i Gyfarwyddeb 2014/98/EU.

(4) Ond nid yw is-baragraff (1) yn gymwys i ddeunyddiau CAC yn ystod rhewgadw.

(5) O ran deunyddiau CAC sy'n perthyn i'r rhywogaeth *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf—

(a) rhaid eu cynhyrchu o ffynhonnell ddeunyddiau adnabyddedig y canfuwyd ei bod, drwy waith samplu a phrofi, yn rhydd rhag y plâu a restrir yn Atodiad II i Gyfarwyddeb 2014/98/EU ar gyfer y rhywogaethau hynny; a

(b) ers dechrau'r cylch llystyfiant diwethaf, rhaid bod wedi canfod, drwy arolygiad gweledol ac unrhyw waith samplu a phrofi, eu bod yn rhydd i bob pwrpas rhag y plâu a restrir yn Atodiad II i Gyfarwyddeb 2014/98/EU, o ran y rhywogaethau o dan sylw.

(6) Yn y paragraff hwn, ystyr "rhydd i bob pwrpas rhag y plâu" yw bod y graddau y mae plâu yn bresennol ar y deunyddiau lluosogi neu'r planhigion ffrwythau yn ddigon isel i sicrhau bod y deunyddiau lluosogi o ansawdd a defnyddioldeb derbyniol.

**Gofynion ynghylch diffygion sy'n debygol o amharu ar ansawdd**

**5.**—(1) Rhaid i ddeunyddiau CAC fod yn rhydd rhag diffygion i bob pwrpas.

(2) Caiff hyn ei gadarnhau ar sail arolygiad gweledol.

(3) Mae anafiadau, afliwiad, meinweoedd creithiol neu ddysychiad yn cael eu hystyried yn ddiffygion, os ydynt yn effeithio ar ansawdd a defnyddioldeb deunyddiau CAC fel deunyddiau lluosogi.